
Datganiad ynghylch dwy agwedd o bolisi Ofcom ar ddyfarnu trwyddedau gwasanaethau cyfyngedig tymor byr (SRSLs)

DATGANIAD:

Dyddiad cyhoeddi: 19 Tachwedd 2019

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg

1

1. Trosolwg

Mae'r datganiad hwn yn ymwneud â dwy agwedd o bolisi Ofcom ar drwyddedu trwyddedau gwasanaethau cyfyngedig tymor byr (SRSLS).

Ein penderfyniad – yn gryno

Rydyn ni wedi nodi bod dwy agwedd o'n polisi ar drwyddedu trwyddedau gwasanaethau cyfyngedig tymor byr (SRSLS) ddim wedi llwyddo i gyrraedd eu nod o helpu Ofcom i gyflawni'r dyletswyddau canlynol:

- sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o sbectrwm; a
- sicrhau bod ystod eang o wasanaethau darlledu ar gael ledled y DU sydd – wrth eu hystyried gyda'i gilydd – o ansawdd uchel ac yn apelio at amrywiaeth o chwaethau a diddordebau.

Mae'r polisiâu hyn yn cynnwys:

- Yn gyffredinol, nid yw Ofcom yn dyfarnu mwy na dau SRSL i'r un ymgeisydd mewn blwyddyn, na mwy nag un SRSL y flwyddyn os ydy'r gwasanaeth o fewn yr M25.
- Yn gyffredinol, nid yw Ofcom yn dyfarnu SRSLS pan nad yw'n ymddangos bod y gwasanaeth y cynigir ei ddarparu yn wahanol i'r hyn sydd eisoes ar gael ar y gwasanaethau masnachol a chymunedol yn yr ardal ddarlledu.

Roedd ein hymgyngoriad yn cynnig rhoi'r gorau i weithredu'r polisiâu hyn. Yn dilyn adolygiad o'r ymatebion i'r ymgyngoriad, a ddisgrifir yn llawn isod, rydyn ni wedi penderfynu na fyddwn yn gweithredu'r ddau bolisi mwyach. Byddwn yn newid geiriad ein nodiadau cyfarwyddyd yn unol â'r hyn a gynigiwyd yn ein hymgyngoriad.

Cefndir

- 1.1 Mae Ofcom yn dyfarnu trwyddedau radio tymor byr ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig, sy'n wasanaethau analog ar gyfer darlledu i leoliadau wedi'u diffinio neu ddarpariaeth ar gyfer digwyddiadau penodol. Fe wnawn hynny yn unol â'r canllawiau ynghylch ein polisi, yr ydym wedi'u cyhoeddi ac y gallem eu diweddarau o bryd i'w gilydd.
- 1.2 Mae'n rhaid i Ofcom gyflawni ein swyddogaethau er mwyn hyrwyddo buddiannau defnyddwyr a dinasyddion, pan fo'n briodol drwy hybu cystadleuaeth. Mae'r pethau mae'n rhaid i ni eu sicrhau'n cynnwys gwneud y defnydd gorau posibl o sbectrwm a sicrhau bod ystod eang o wasanaethau darlledu ar gael drwy'r DU sydd – wrth eu hystyried gyda'i gilydd – o ansawdd uchel ac wedi cael eu cynllunio i apelio at amrywiaeth o chwaethau a diddordebau.
- 1.3 Yn ein [hymgyngoriad cyhoeddedig](#) ar 3 Hydref 2019, fe wnaethom gynnig peidio â gweithredu'r ddwy agwedd ganlynol ar ein polisi ynglŷn â dyfarnu SRSLS:
 - a) yn gyffredinol, dyfarnu uchafswm o ddau SRSL o fewn unrhyw gyfnod o 12 mis yn olynol yn yr un ardal o'r DU (neu uchafswm o un SRSL yn ardaloedd Llundain Fwyaf ac

ardaloedd eraill o fewn yr M25), a sicrhau cyfnod lleiaf o bedwar mis rhwng diwedd trwydded gyntaf trwyddedai a dechrau ail drwydded yr un trwyddedai; ac

- b) yn gyffredinol, peidio â dyfarnu trwyddedau ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymddangos yn wahanol i wasanaeth radio masnachol neu gymunedol yn yr un ardal ddarlledu.
- 1.4 Fe wnaethom y cynnig hwn oherwydd nid yw'r polisi sydd wedi'i ddrafftio, yn ein barn ni, wedi cyflawni ei nod o sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o sbectrwm; neu sicrhau bod ystod mwy o wasanaethau ar gael i apelio i amrywiaeth ehangach o chwaethau a diddordebau nag a fyddent ar gael fel arall.
- 1.5 Cawsom 17 ymateb i'r ymgynghoriad, ac fe gafodd tri ohonynt eu cyflwyno'n gyfrinachol. Dim ond un person wnaeth ymateb i'r cwestiwn am wasanaethau nad ydynt yn ymddangos yn wahanol i wasanaeth radio masnachol neu gymunedol yn yr un ardal.
- 1.6 Rydyn ni'n trafod yr ymatebion yn llawn yn **Adran 2** isod.

Ein penderfyniad

- 1.7 Rydyn ni wedi penderfynu peidio â gweithredu'r polisi lle nad yw Ofcom yn dyfarnu mwy na dau SRSL i'r un ymgeisydd mewn blwyddyn, na mwy nag un SRSL y flwyddyn os ydy'r gwasanaeth o fewn yr M25. Yn hytrach, ar ôl i ymgeisydd gael dau SRSL, neu pan fydd ymgeisydd yn gwneud cais o fewn pedwar mis, byddwn yn blaenoriaethu ymgeiswyr newydd, sy'n eithriad i'n polisi cyntaf i'r felin arferol.
- 1.8 Rydyn ni wedi penderfynu diddymu'r polisi lle nad yw Ofcom yn dyfarnu SRSLs pan nad yw'n ymddangos bod y gwasanaeth y cynigir ei ddarparu yn wahanol i'r hyn sydd eisoes ar gael ar y gwasanaethau masnachol a chymunedol yn yr ardal ddarlledu.
- 1.9 Rydyn ni hefyd wedi cyhoeddi nodiadau cyfarwyddyd wedi'u diwygio i adlewyrchu ein penderfyniad.